Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 7 Chwefror 2024, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd B. Mellor (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, D. Simmons A Miss C. L. Williams.

Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 65. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Miss S. Fleming, Ms J. L. McAlpine, A. J. Rutherord, A. Walker a gan Glerc y Dref.

## 66. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MIS IONAWR 2024

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb rhif | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1754 | BT | 606.79 | Ffioedd ffôn a chynnal a chadw |
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol - HW |
| 1755 | HSBC | 11.75 | Ffioedd bancio |
| 1526 | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol - HW |
| 1756 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 5,001.39 | Didyniadau Talu wrth Ennill mis Rhagfyr 2023 |
| 1757 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 6,035.91 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg mis Rhagfyr 2023 |
| 1758 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,301.07 | Tál net mis Ionawr 2024 |
| 1617 | Cyngor Sir Ddinbych | 753.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfa Ddinesig 2023/24 – taliad 10 o 10 |
| 1658 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,166.67 | Swyddog Apeliadau 23/24 – taliad 10 o 12 |
| 1539 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol - GN |
| 1767 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Benthyciad SC2 23/24 – taliad 3 o 3 |
| 1539 | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol - GN |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **53,945.56** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 295.99 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 17.66 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 26.85 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 26.85 |

| | | |
|---|---|---|
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 26.85 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 6 mis | 2,209.07 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **2,603.27** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 67. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr taliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1769 | Lawnscience | Trin y Gerddi Coffa 19/1/24 | 42.00 |
| 1770 | Elusen Cadeirydd Cyngor Sir y Fflint | Cyfraniad yn lle presenoldeb yng Nghinio Elusennol Blynyddol y Cadeirydd | 20.00 |
| 1771 | Cyng. J. L. McAlpine | Lwfans y Maer 23/24 – taliad 3 o 3 | 433.33 |
| 1772 | Cyng. C. L. Williams | Lwfans y Dirprwy Faer 23/24 – taliad 3 o 3 | 133.32 |
| 1773 | Cyng. J. L. McAlpine | Lwfans Uwch Swydd 23/24 – taliad 3 o 3 | 166.66 |
| 1774 | Cyng. C. L. Williams | Lwfans Uwch Swydd 23/24 – taliad 3 o 3 | 166.66 |
| 1775 | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | Ffi blynyddol | 35.00 |
| 1776 | Cyngor Tref Treffynnon | Dau docyn i'r Ddawns Elusennol | 52.00 |
| 1777 | Cyngor Tref Prestatyn | Dau docyn i'r Noson Elusennol | 56.00 |
| 1778 | Cyngor Tref Rhuddlan | Dau docyn i'r Cyngerdd Elusennol | 20.00 |
| 1779 | Cyngor Sir Ddinbych | Costau is-etholiad Ward Cefndy, Y Rhyl | 3,390.16 |
| 1780 | Sage & Co | Gwasanaethau cyflogres mis Hydref – mis Rhagfyr 2023 | 102.60 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **4,617.73** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r taliadau yn yr atodlen a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 68. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31 RHAGFYR 2022 A RHAGFYNEGIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2023/24

Cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at yr adroddiad ar y cyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dangos y perfformiad yn erbyn y gyllideb. Yn benodol y rhagfynegwyd gwarged o £15,057 am y flwyddyn (cyn trosglwyddo arian i/o gronfeydd wrth gefn penodol) ac y bwriedir trosglwyddo £31,573 i'r Gronfa wrth gefn Prosiectau Mawr, £7,000 i'r Gronfa wrth gefn Etholiadau a £5,000 i Gronfeydd wrth gefn benodol Newydd ar gyfer Addurndlysau Dinesig.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**69. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2024/25**

Cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**70. ADRODDIAD AR BERFFORMIAD Y BUDDSODDIADAU – CHWARTER 3 2023/24**

Ymhellach i gofnod rhif 72 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2023, cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dangos perfformiad buddsoddiadau'r Cyngor Tref yn erbyn y gyllideb.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**71. ADRODDIAD AR FUDDSODDI YNG NGHYFRIF ADNEUO HSBC**

Ymhellach i gofnod rhif 43 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2023, cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r adroddiad), yn gofyn am awdurdod yn unol â Pholisi Buddsoddi'r Cyngor Tref, i ailfuddsoddi £85,000 eto gyda HSBC ym mis Chwefror 2024 ar sail cyfnod o chwe mis.

Cynghorodd y Dirprwy Glerc bod buddsoddi £85,000 am y chwe mis diwethaf wedi ennill llog o £2,209.07 a bod y buddsoddiad nesaf yn darogan elw o £1,955 (ar gyfradd llog o 4.60%), ond bod hyn yn ddibynnol ar y gyfradd a gynigir ar ddiwrnod yr adneuo, felly gallai fod ychydig yn is neu'n uwch na hynny.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r buddsoddi am gyfnod o chwe mis.*

**72. ADRODDIAD INTERIM YR ARCHWILYDD MEWNOL 2023**

Cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ac at y ddau fater a nodwyd gan yr Archwilydd Mewnol i'r Is-bwyllgor Asesu Risg weithredu arnynt a'u monitro.

Y ddau fater oedd:

- Lledaenu'r rhwyd a rhoi mwy o amser i dderbyn tendrau a dyfynbrisiau wrth chwilio am ddarparwyr goleuadau Nadolig a phlanhigion i annog rhagor o ymatebion

- Pennu amserlen ffurfiol ar gyfer llunio, cytuno ar a chymeradwyo pennu cyllideb 2025/26

Cynghordd y Dirprwy Glerc fod amserlen ffurfiol pennu'r gyllideb wedi'i llunio yn awr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a dirprwyo'r ddau fater a nodwyd i'r Is-bwyllgor Asesu Risg eu hystyried.*

## 73. YMGYNGHORIAD: BT – TYNNU CIOSG FFÔN YMAITH, RHODFA RHYDWEN, Y RHYL

Cyfeiriodd y Dirprwy Glerc ar yr ymgynghoriad uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dangos mai dim ond 23 galwad a wnaed o'r ciosg yn ystod y 12 mis diwethaf a gofynnodd i'r aelodau ystyried ei dynnu ymaith ar y sail hynny.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn manylion yr ymgynghoriad heb unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig arfaethedig i dynnu'r ciosg ymaith.*

## 74. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 ar sail cyfrinachedd.*

## 75. COFNODION CYFRINACHOL

Cyflwynwyd y cofnodion a ganlyn (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion a gynhwysywyd ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 13 Tachwedd 2023 | - | Cofnodion rhifau 21-25 |
| Yr Is-bwyllgor Asesu Risg | - | 23 Hydref 2023 | - | Cofnodion rhifau 16-26 |
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 8 Ionawr 2024 | - | Cofnodion rhifau 26-30 |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.*

Adroddodd y Dirprwy Glerc fod neges e-bost Clerc y Dref i'r holl aelodau yn gofyn am eu syniadau/dyheadau am brosiectau yn y dyfodol i'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol i'w hystyried i'w cynnwys yng Nghynllun Tref y Rhyl 2022-2027 wedi cael dau ateb yn unig.

Dywedodd y Dirprwy Glerc y byddai'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol yn cyfarfod am 4.00pm ddydd Llun, 12 Chwefror, a gofynnodd i'r aelodau anfon eu syniadau at Glerc y Dref cyn hynny.

## 76. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd yr Is-gadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Is-gadeirydd: …………………………

Dyddiad: …………………………